

**RHEOLIADAU ADDYSG (TREFNIADAU APELAU DERBYN) (CYMRU)  
(CORONAFEIRWS) (DIWYGIO) (DIWYGIO) 2021  
ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddff Cydraddoldeb 2010.**

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 yn diwygio rhai gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 sy'n ymwneud â phaneli apelau derbyn ysgolion hyd at 31 Medi 2022.

Gwneir y newid hwn fel bod apelau yn gallu parhau i gael eu cynnal yn 2021 a 2022 er gwaethaf yr anawsterau ymarferol posibl yn sgil mesurau sydd yn eu lle i atal y coronafeirws rhag lledaenu. Ar hyn o bryd, mae'r mesurau hyn yn cynnwys y gofyniad i gynnal asesiadau risg a allai benderfynu na chaniateir i apeliadau ddigwydd ar safleoedd penodol, gan gyfyngu ar y gallu i bartïon gyfarfod yn gorfforol, a chanllawiau ar hunan-ynysu a all achosi anawsterau o ran sicrhau digon o aelodau'r panel ar gyfer gwrandawiadau apêl.

Mae Rheoliadau 2021 yn dilyn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) Coronafeirws (Diwygio) (Diwygio) 2020 a ddiwygiodd yr un gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 mewn perthynas â phaneli apelau derbyn i ysgolion tan 30 Medi 2021. Cyflwynwyd y Rheoliadau hyn i ganiatáu i apeliadau barhau i gael eu cynnal er gwaethaf y cyfyngiadau sydd ar waith mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Mae awdurdodau derbyn yn cefnogi estyniad i'r diwygiadau dros dro, sy'n awgrymu bod yr hyblygrwydd a roddir ganddynt yn fanteisiol i awdurdodau derbyn, paneli apêl ac apelwyr fel ei gilydd.

Er bod Rheoliadau 2021 yn ymestyn y mesurau llacio ar y gofynion presennol, mae'r mwyafrif helaeth o'r gofynion yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn dal i fod yn briodol a rhaid parhau i'w bodloni. Y prif egwyddorion sy'n llywodraethu pob apêl o hyd yw tegwch gweithdrefnol a chyfiawnder naturiol. Nid ydym yn cynnig dileu unrhyw rai o ddyletswyddau clerco apelau derbyn. Mae clercod yn cyflawni rôl allweddol o ran gwrandawiadau apêl, wrth roi cyngor ar y gyfraith derbyniadau yn ogystal â chadw cofnod cywir o'r trafodion a sicrhau bod y gwrandawriad apêl yn deg. Rhaid bod gan glercod ddealltwriaeth dda o'r gyfraith ar dderbyniadau a rhaid eu bod wedi cael hyfforddiant priodol sy'n cynnwys cyfraith cydraddoldeb.

Rhaid i'r panel apelau gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (gan gynnwys adran 29). Mae hyn yn cynnwys ystyried presenoldeb a chynrychiolaeth apelydd yn y gwrandawriad lle mae hyn yn cynnwys mynediad o bell a'r ddyletswydd i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod eu hangen. Y clerco fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir o ran ceisiadau am addasiadau rhesymol yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnod yr apêl ac yn cael eu cadarnhau â'r apelydd yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad apêl.

Lle na all apêl gael ei chynnal yn bersonol, rhaid i'r panel apelau gymryd camau i sicrhau bod pawb dan sylw yn gallu cyflwyno eu hachosion yn llawn yn rhithwir neu'n ysgrifenedig, a chael ei fodloni y gall yr apêl gael ei phenderfynu mewn ffordd deg a thryloyw.

Noda'r Cod Apelau y gall yr apelydd ddod â chyfaill, cynghorydd, cyfieithydd/dehonglydd neu arwyddwr gydag ef neu gael ei gynrychioli ganddo, ac y gall siarad ar ran yr apelydd. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os bydd angen.

Ceidw rhieni yr hawl i gwyno am achos o gamweinyddu gan y panel apêl.

Nod yr estyniad hwn i'r diwygiad ar Reoliadau 2005 yw ceisio diogelu buddiannau rhieni a phlant a phobl ifanc drwy sicrhau bod apelau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn y ffordd fwyaf teg a chyfartal posibl.

Caiff canllawiau anstatudol eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Rheoliadau sy'n nodi'n glir lle mae'n rhaid cydymffurfio â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, yn ogystal ag atgoffa paneli apêl o'u dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:**

<b>Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig</b>	<b>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</b>	<b>Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?</b>
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Pan nad oes modd i baneli apêl gyfarfod yn gorfforol, gall fod effeithiau negyddol posibl ar bobl hŷn y gallant fod wedi'u hallgáu'n ddigidol.	Nododd y Fframwaith Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, y bobl hynny a oedd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys pobl hŷn.	Darparu ar gyfer cynnal y gwrandawriad yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig gan yr apelydd. Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mor llawn â phosibl.  Fel sy'n wir nawr, rhaid i'r Panel Apelau

			<p>Derbyn gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Rhaid bod Clerc y Panel Apelau wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant mewn cyfraith Cydraddoldeb. Y Clerc sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.</p> <p>Noda'r Cod Apelau y gall yr apelydd ddod â chyfaill neu gynghorydd gydag ef, a all siarad ar ran yr apelydd. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os bydd angen.</p>
Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)	Pan nad oes modd i baneli apêl gyfarfod yn gorfforol, gall fod effeithiau negyddol posibl ar bobl â nam ar eu clyw neu ar eu golwg.	Nododd y Fframwaith Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, y bobl hynny a oedd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys pobl anabl.	<p>Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mor lawn â phosibl.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys wrth ystyried presenoldeb a chynrychiolaeth apelydd yn y gwrandawriad lle mae</p>

		<p>hyn yn cynnwys mynediad o bell a'r ddyletswydd i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod eu hangen. Y clerc fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir o ran ceisiadau am addasiadau rhesymol yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnod yr apêl ac yn cael eu cadarnhau â'r apelydd yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad apêl.</p> <p>Bydd awdurdodau derbyn wedi hen arfer â deall anghenion teuluoedd yn yr ardal, a'u diwallu, gan gynnwys darparu arwyddwyr, cyfieithwyr/dehonglwyr a phapurau apêl mewn fformatau amgen.</p> <p>Noda'r Cod Apelau y gall yr apelydd ddod â chyfaill, cynghorydd, cyfieithydd/dehonglydd neu arwyddwr gydag ef neu gael ei gynrychioli ganddo, ac y gall siarad ar ran yr apelydd. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os bydd angen.</p> <p>Clerc y Panel Apelau sy'n gyfrifol am sicrhau</p>
--	--	---

			cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
Ailbennu Rhywedd (y broses o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)	Dim.		
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim.		
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr lloches a Ffoaduriaid)	Pan nad oes modd i baneli apêl gyfarfod yn gorfforol, gall fod effeithiau negyddol posibl ar bobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.	Gall fod yn gymhleth ychwanegu gwasanaethau cyfieithu er mwyn i baneli apelau gael eu cynnal yn rhithwir.	<p>Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mor lawn â phosibl.</p> <p>Mae awdurdodau derbyn wedi hen arfer â deall anghenion teuluoedd yn yr ardal, a'u diwallu, gan gynnwys darparu cyfieithwyr a phapurau apêl mewn ieithoedd amgen.</p> <p>Noda'r Cod Apelau y gall yr apelydd ddod â chyfaill, cynghorydd, cyfieithydd/dehonglydd neu arwyddwr gydag ef neu gael ei gynrychioli ganddo, ac y gall siarad ar ran yr</p>

			<p>apelydd. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os bydd angen.</p> <p>Rhaid i'r Panel Apelau gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys adran 29 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.</p>
Crefydd, cred a dim cred	Dim.		
Rhyw / Rhywedd	Dim.		
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Dim.		
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim.		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	<p>Mae'r mwyafrif o'r gofynion yn y Cod yn dal i fod yn gymwys. Mae'r broses apelio yn parhau i fod yn seiliedig ar gydraddoldeb a thegwch. Bydd y newidiadau yn caniatáu i baneli apelau fynd rhagddynt yn ystod y cyfyngiadau</p>		

	presennol, gan sicrhau y gall plant gael lle mewn ysgol cyn gynted â phosibl		
Aelwydydd incwm isel	Pan nad oes modd i baneli apêl gyfarfod yn gorfforol, gall fod effeithiau negyddol posibl ar bobl o aelwydydd incwm isel y gallant fod wedi'u hallgáu'n ddigidol.	Nododd y Fframwaith Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, y bobl hynny a oedd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol; y rhai ar incwm isel; pobl ddi-waith a'r rhai sy'n economaidd anweithgar.	Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mor lawn â phosibl.  Lle na all apelwyr gymryd rhan gan ddefnyddio adnoddau cyfarfod rhithwyr, am nad oes ganddynt gyfarpar TG neu fynediad i'r rhyngwyd, gall gwrandawriad dros y ffôn neu gan ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig gael ei gynnal yn lle hynny.  Clerc y Panel Apelau sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys adran 29) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

<b>Hawliau Dynol</b>	<b>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</b>	<b>Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?</b>
----------------------	---	--	---

<p>Erthygl 14: Atal Gwahaniaethu o ran yr hawliau a'r rhyddid hyn.</p>	<p>Pan nad oes modd i baneli apêl gyfarfod yn gorfforol yn sgil effaith y coronafeirws, efallai na all rhai pobl chwarae rhan lawn mewn gwrandawriad rhithwir neu dros y ffôn.</p>	<p>Efallai y bydd rhai pobl wedi'u hallgáu'n ddigidol, naill ai oherwydd nodwedd warchoddedig, neu am na allant fel arall gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen, megis cyfrifiadur, ffôn neu'r rhyngwyd.</p>	<p>Rhaid i'r Panel Apêl gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys adran 29.</p> <p>Anogir Clerc y Panel Apelau i ymgysylltu â'r apelwyr cyn y gwrandawriad er mwyn deall eu gofynion a sichau eu bod yn gallu chwarae rhan mor lawn â phosibl.</p> <p>Y dewis amgen i ymddangos mewn gwrandawriad gan ddefnyddio fideogynadledda neu dros y ffôn yw i'r panel apelau ddefnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr apelydd i ategu ei achos. Rhaid i'r Clerc gysylltu â'r apelydd er mwyn sichau ei fod yn fodlon ar hynny.</p> <p>Noda'r Cod Apelau y gall yr apelydd ddod â chyfaill, cynghorydd, cyfieithydd/dehonglydd neu arwyddwr gydag ef neu gael ei gynrychioli ganddo, ac y gall siarad ar ran yr apelydd. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol os bydd angen.</p>
--	--	--	---



			<p>Ceidw rhieni yr hawl i gwyno am achos o gamweinyddu gan y panel apelau.</p> <p>Ni ellir cyfrif am bob sefyllfa ac, o ystyried yr amgylchiadau arbennig yn sgil argyfwng iechyd presennol COVID-19, credwn mai dyma'r ateb mwyaf teg.</p>
--	--	--	---